# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO
**(drwy Microsoft Teams)**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | **Dydd Llun, 12 Gorffennaf 2021** |
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd S.Paddison** |
| **Cynghorwyr**: | J Jones, S Freeguard a C James |
| **Swyddogion yn Bresennol:** | N Chapple, G White a N Headon |

---

1. **Cais i amrywio Trwydded Mangre - Celtic Lodge**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol ar gyfer amrywio Trwydded Mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Celtic Lodge |
| Cyfeiriad y fangre | 36 Westernmoor Road, Castell-nedd SA11 1BZ |
| Enw'r Ymgeisydd | The Celtic Lodge (Cimla) LTD |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | 36 Westernmoor Road, Castell-nedd SA11 1BZ |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | Caren Jones |

**Penderfynwyd:** y byddai'r Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r cais i amrywio'r Drwydded Mangre, yn destun amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu, ac fel yr ystyrir ei bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Dyma'r amodau:

a. Ni fydd y bar allanol (fel y nodir yn y cynllun sydd ynghlwm wrth y drwydded) yn cael ei ddefnyddio i werthu alcohol rhwng 10:00pm a 11:59am;
b. Ni ddylid yfed alcohol mewn unrhyw ardal allanol rhwng 10:00pm a 11:59am;

c. Bydd arwyddion amlwg yn cael eu codi yn yr ardd gwrw y tu allan gan nodi na fydd yr ardd gwrw yn cael ei defnyddio rhwng 10:00pm ac 11:59am; a
d. Bydd arwyddion amlwg yn cael eu codi yn yr ardd gwrw y tu allan, gan ofyn i gwsmeriaid gadw lefelau sŵn mor isel â phosib a gadael mewn modd tawel a threfnus, er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr lleol.